FFURFLEN RHW23

# HYSBYSIAD CYN GWNEUD HAWLIAD MEDDIANT

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 159(1), 161(1), 166(1), 171(1) neu 192(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys.*

| **Rhan A: Landlord** | **Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: | Enw(au): |

| **Rhan C: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant** | |
|---|---|
| Mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid contract yr annedd uchod fod y landlord yn bwriadu gwneud hawliad meddiant i'r llys ar y sail a ganlyn o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016: | |
| ☐ | **Tor contract** (adran 157)<br>*Nodwch yn glir fanylion y toriad, gan gynnwys pa un a ddibynnir ar adran 55 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall).* |
| ☐ | **Seiliau rheoli ystad** (adran 160 ac Atodlen 8)<br>*Ticiwch fel y bo'n gymwys i ddangos y paragraff o Atodlen 8 y dibynnir arno.*<br>☐ Sail A (gwaith adeiladu)<br>☐ Sail B (cynlluniau ailddatblygu)<br>☐ Sail C (elusennau)<br>☐ Sail D (annedd sy'n addas i bobl anabl)<br>☐ Sail E (cymdeithasau tai ac ymddiriedolaethau tai: pobl y mae'n anodd eu cartrefu)<br>☐ Sail F (grwpiau o anheddau ar gyfer pobl sydd ag anghenion arbennig)<br>☐ Sail G (olynwyr wrth gefn)<br>☐ Sail H (cyd-ddeiliaid contract)<br>☐ Sail I (rhesymau rheoli ystad eraill)<br>*Nodwch y rhesymau drosodd.* |

| Rhan D: Hysbysiad o Hawliad Meddiant (parhad) | |
|---|---|
| *Os dibynnir ar Sail I (rhesymau rheoli ystad eraill), nodwch y rhesymau'n glir, e.e. gorlenwi o dan Ran 10 o Ddeddf Tai 1985.* | |
| ☐ | **Methiant deiliad y contract i ildio meddiant o'r annedd** yn dilyn deiliad y contract yn darparu hysbysiad i derfynu'r contract (adran 165, 170 neu 191) |

| Rhan E: Llofnod | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br><br>…………………………… | Dyddiad:<br><br>…………………………… |

**Canllawiau i ddeiliaid contract**

Mae'r hysbysiad hwn yn dweud wrthych fod eich landlord yn bwriadu dechrau achos i adennill meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ddarllen yr hysbysiad yn ofalus a gofyn am gyngor ynghylch eich amgylchiadau cyn gynted â phosibl.

Bydd y dyddiad cynharaf y gall achos adennill meddiant ddechrau arno yn dibynnu ar ba sail neu seiliau y ceisir adennill meddiant, sef y seiliau a restrir yn Rhan D. Darperir esboniadau o'r cyfyngiadau sy'n gymwys i seiliau penodol isod.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

**Cyfyngiadau ar achosion yn dilyn yr hysbysiad hwn**

<u>Cyfyngiad sy'n gymwys i'r sail tor contract</u>
Caiff y landlord wneud hawliad meddiant gan ddibynnu ar dorri adran 55 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall) **ar neu ar ôl y diwrnod** y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n nodi bod yr adran honno wedi ei thorri.

Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant gan ddibynnu ar dorri unrhyw deler arall o'r contract meddiannaeth cyn diwedd y cyfnod o **un mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n nodi bod y teler hwnnw wedi ei dorri.

Yn y naill achos a'r llall, ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract.

<u>Cyfyngiad sy'n gymwys i'r sail rheoli ystad</u>
Ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant cyn diwedd y cyfnod o **un mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract, neu ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract.

Os yw cynllun ailddatblygu yn cael ei gymeradwyo o dan Ran 2 o Atodlen 8 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ac yn ddarostyngedig i amodau, caiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n pennu Sail B o'r seiliau rheoli ystad cyn bod yr amodau wedi eu bodloni.

Cyfyngiad sy'n gymwys i'r sail rheoli ystad (parhad)
Ni chaiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n pennu Sail G o'r seiliau rheoli ystad (dim angen y llety ar olynydd):

(a) cyn diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth y landlord (neu yn achos cyd-landlordiaid, unrhyw un ohonynt) i wybod am farwolaeth y deiliad contract blaenorol, neu
(b) ar ôl diwedd y cyfnod o **12 mis** sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

Ni chaiff y landlord roi i ddeiliad y contract hysbysiad adennill meddiant sy'n pennu Sail H o'r seiliau rheoli ystad (cyd-ddeiliad contract yn gadael) ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod y daeth hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad y contract i ben o dan y contract.

Cyfyngiadau sy'n gymwys i'r sail adennill meddiant a ddarperir gan adrannau 165, 170 ac 191
Caiff y landlord wneud hawliad meddiant **ar neu ar ôl y diwrnod** y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract, ond ni chaiff y landlord wneud hawliad meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o **chwe mis** sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

Ni chaiff y landlord roi i ddeiliad y contract hysbysiad adennill meddiant sy'n pennu'r sail yn adran 165, 171 neu 191 (fel y bo'n gymwys) ar ôl diwedd y cyfnod o **ddau fis** sy'n dechrau â'r dyddiad a bennir yn unrhyw hysbysiad a roddir o dan adran 163 neu 168 neu o gymal terfynu deiliad y contract (fel y bo'n gymwys) fel y dyddiad y byddai deiliad y contract yn ildio meddiant o'r annedd.